Jo Williams
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Tŷ Penallta
Tredomen
Ystrad Mynach
CF82 7PG

Dyddiad: 17/12/2024

Annwyl Jo Williams

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) - Gwiriad Sicrwydd o wasanaethau oedolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r llythyr hwn yn disgrifio canfyddiadau ein gwiriad sicrwydd a gynhaliwyd rhwng 25 a 27 Tachwedd 2024. Rydym yn ymgymryd â gweithgarwch arolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014) a'r safonau ansawdd yn y *Cod Ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru*. Mae hyn yn ein helpu i bennu pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol o ran cefnogi, mesur a chynnal gwelliannau i bobl a gwasanaethau. Roedd ein llinellau ymholi allweddol yn unol â phedair egwyddor Deddf 2014 ac yn ceisio ateb y cwestiynau isod:

**Pobl – llais a rheolaeth**
*I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros ei fywyd ac yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddo? I ba raddau y mae'r staff gweithredol yn cael eu cefnogi gan arweinwyr a'r tîm rheoli i ddiwallu anghenion pobl a gofalwyr?*

**Atal**
*I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod yr angen am ofal a chymorth yn cael ei leihau i'r eithaf, a bod anghenion yn cael eu hatal rhag gwaethygu, gan sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau posibl i bobl? I ba raddau y caiff bobl wybodaeth, cyngor a chymorth? I ba raddau y caiff unrhyw risgiau eu rheoli os bydd angen i bobl aros am asesiad?*

**Llesiant**
*I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff pobl eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed? I ba raddau y caiff anghenion eu blaenoriaethu pan fydd pobl yn aros am asesiad a / neu gymorth?*

**Partneriaethau**
*I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn gallu bodloni ei hun fod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cynaliadwy, o ansawdd*

*uchel a chwbl integredig i bobl? I ba raddau y mae arweinwyr yn cadw golwg ar anghenion y boblogaeth a'r gwelliannau sydd eu hangen o ran y gwasanaethau a ddarperir?*

1.2 Canolbwyntiodd y gwiriad sicrwydd hwn ar effeithiolrwydd gwasanaethau a threfniadau'r awdurdod lleol i helpu pobl a'u hamddiffyn. Roedd cwmpas yr arolygiad yn cynnwys:

- Gwerthuso profiad pobl ar adeg yr arolygiad gwiriad sicrwydd.
- Gwerthuso profiadau a chanlyniadau pobl drwy eu cyswllt â gwasanaethau.
- Byddwn yn chwilio am dystiolaeth i ddangos bod yr awdurdod lleol a'i bartneriaid wedi dysgu gwersi o'u profiadau diweddar a bod ganddynt gynlluniau i ddatblygu a gwella gwasanaethau.

## 2. Terminoleg a Diffinio Meintiau

Ceir rhestr terminoleg yn Atodiad 1 a thabl yn nodi diffiniadau o niferoedd yn Atodiad 2.

## 3. Crynodeb o'r gwiriad sicrwydd

3.1 Fel llawer o awdurdodau lleol ledled Cymru, mae Caerffili yn wynebu heriau mewn perthynas â darparu a chyflenwi gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys pwysau sy'n deillio o fwy o alw am wasanaethau, yr anghenion cynyddol gymhleth sydd gan bobl, a phwysau cyllidebol sylweddol. Mae recriwtio a chadw yn her genedlaethol, ac mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth i'r awdurdod lleol.

3.2 Mae'r arweinwyr strategol yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd drwy weithio tuag at egwyddorion Marmot[1]. Mae rhaglenni trawsnewid yn cefnogi'r cynllun corfforaethol ac yn ategu gwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent[2] a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent[3]. Mae cynllun corfforaethol Caerffili yn seiliedig ar bum amcan llesiant i alluogi plant i lwyddo mewn addysg, galluogi trigolion a chymunedau i ffynnu, galluogi'r economi i dyfu, a galluogi'r amgylchedd i fod yn wyrddach[4].

3.3 Datblygwyd ethos *Tîm Caerffili - Yn Well Gyda'n Gilydd* yn 2020 ac mae hyn yn darparu'r sail ddiwylliannol ar gyfer rhaglenni trawsnewid parhaus[5]. Mae'r staff yn falch o'r gwaith y maent yn ei wneud a'r canlyniadau y maent yn eu cyflawni i bobl. Dywedodd un aelod o staff wrthym: *"I am incredibly well supported in my role. The manager and senior staff are exceptional. It is a pleasure to come to work'.* Roedd yr **ymarfer cadarnhaol** hwn a'r farn gadarnhaol hon ymhlith y staff i'w gweld ar draws y gwasanaethau oedolion.

[1] Rhanbarth Marmot Gwent – Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent
[2] Asesiad Lles Gwent – Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent
[3] Cynllun Ardal – Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
[4] cynllun-corfforaethol-2023-28.aspx
[5] Caerffili - Bwrdeistref Sirol Caerffili

3.4 Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n dda gyda sefydliadau partner i sefydlogi a llywio'r farchnad gofal cymdeithasol. Mae'r arweinwyr yn ymchwilio i ddulliau gweithredu arloesol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i ganolbwyntio ar ganlyniadau, gan hyrwyddo effeithlonrwydd ac arbed costau ar yr un pryd. Mae datblygu dulliau cyfathrebu cydweithredol a gwasanaeth asesu gallu gweithredol ymhlith y prif enghreifftiau. Drwy gyfuno hyn â safonau comisiynu arloesol, mae hyn yn gwella effeithlonrwydd, yn lleihau'r galw am wasanaethau ac yn lleihau amseroedd aros i bobl. Yn nodedig, mae nifer y bobl sy'n aros am ofal cartref wedi lleihau'n gyson dros y ddwy flynedd ddiwethaf, o dros 100 o bobl i 12 yn unig ar adeg yr arolygiad.

3.5 Mae'r arweinwyr yn darparu cyfeiriad strategol clir ac effeithiol ac mae'r gweithlu yn fedrus ac yn cael ei gefnogi. Mae gan lawer o bobl lais, dewis a rheolaeth a chaiff yr angen am ofal a chymorth ei leihau'n gyson. Mae pobl yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed. Maent yn cael cymorth gwerthfawr i reoli eu llesiant a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth, gan eu galluogi i gyflawni eu potensial a byw'n annibynnol.

3.6 Mae gan arweinwyr y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion ddealltwriaeth dda o gryfderau'r gwasanaeth a'r meysydd i'w gwella. Mae amseroldeb asesiadau ar gyfer Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ac asesiadau ariannol yn feysydd blaenoriaeth i'w gwella. Mae angen gwneud gwelliannau parhaus mewn perthynas â threfniadau ar gyfer sicrhau ansawdd a chymorth i ofalwyr anffurfiol. Dylai'r arweinwyr barhau i wneud gwelliannau mewn modd amserol.

## 4. Canfyddiadau allweddol a thystiolaeth

Nodir isod ganfyddiadau allweddol a rhai enghreifftiau o dystiolaeth yn unol â phedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

### Pobl

### <u>Cryfderau</u>

4.1 Caiff pobl eu trin â gonestrwydd, urddas, a pharch. Mae tystiolaeth o lais pobl i'w gweld yn y rhan fwyaf o ffeiliau. Mae ymarferwyr yn cysylltu â phobl a rhanddeiliaid mewn ffordd gymesur ac yn dangos tystiolaeth dda o'u gwaith, gan gofnodi profiad bywyd pobl yn gyson.

4.2 Mae'r arweinwyr yn modelu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac mae ymarferwyr yn defnyddio arferion seiliedig ar gryfderau yn gyson i hyrwyddo llais ac annibyniaeth pobl. Yn yr enghreifftiau gorau, mae ymarferwyr yn defnyddio disgrifiadau gofalgar a chynnes o'r person a chryfderau'r gofalwr, a chaiff '*yr hyn sy'n bwysig'* i'r unigolyn ei ysgrifennu gan ddefnyddio'r person cyntaf.

4.3 Gwelsom **enghreifftiau cadarnhaol** o ymarfer sy'n seiliedig ar ymchwil yn cefnogi gwaith uniongyrchol gyda phobl. Mae hyn yn cynnwys dulliau amlddisgyblaethol o reoli ymddygiad yn gadarnhaol, ymyriadau sy'n ystyriol o drawma, a'r defnydd o 'straeon cymdeithasol[6]' i helpu pobl i ddeall ac addasu cynlluniau.

4.4 Mae bron pob aelod o'r staff yng Nghaerffili yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwyr a byddent yn ei argymell fel lle i weithio. Mae ymarferwyr yn cael cymorth anffurfiol amserol a chyfleoedd ar gyfer trafodaethau myfyriol.

4.5 Clywsom am y broses o roi methodoleg *Sgyrsiau Cydweithredol* ar waith, a nodwyd bod 119 o staff wedi'u hyfforddi ac 8 mentor. Caiff hyn ei ystyried yn **ymarfer cadarnhaol** ac mae'n werthfawr iawn i ymarferwyr a phartneriaid fel dull o fyfyrio a dysgu. Mae'r arweinwyr wedi rhoi'r dull gweithredu hwn ar waith yn llwyddiannus ymhlith staff mewnol a rhanddeiliaid allweddol. Mae hyn yn cefnogi gwydnwch ymarferwyr, gan eu helpu i wneud penderfyniadau gwell a sicrhau canlyniadau gwell i bobl.

4.6 Caiff yr angen am eiriolaeth ffurfiol ac anffurfiol ei nodi mewn modd amserol gan ymarferwyr, ac mae hyn yn cryfhau llais pobl. Yn yr enghreifftiau gorau, mae gwasanaethau eirioli a theuluoedd yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol drwy drefniadau diogelu ac asesiadau o alluedd meddyliol. Mae hyn yn enghraifft o **ymarfer cadarnhaol** ac mae'n sicrhau bod pobl yn cael eu cynnwys mewn ffordd deg yn y prosesau hyn.

4.7 Mae Caerffili yn recriwtio nifer digonol o staff sy'n siarad Cymraeg er mwyn darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Gwelsom **enghreifftiau cadarnhaol** o staff sy'n siarad Cymraeg yn cefnogi ymyriadau pan oedd pobl â dementia yn cyfathrebu yn Gymraeg.

4.8 Mae gan yr awdurdod lleol ymarferydd arweiniol ar gyfer ymyriadau sy'n ymwneud â galluedd meddyliol. Mae ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r rôl hon a'r effaith y mae'n ei chael ar eu hyder a'u cymhwysedd.

4.9 Mae adran gwynion yr awdurdod lleol yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaethau cymdeithasol i ddatrys cwynion ar gam cynnar. Mae hyn yn cynnwys rhaglen hyfforddiant a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth i staff am y prosesau cwyno a diogelu data.

## Meysydd i'w Gwella

4.10 Mae'r arweinwyr wedi gwella telerau ac amodau'r gweithlu drwy ddarparu gwyliau blynyddol ychwanegol, trefniadau gweithio hyblyg gwell a chyfleoedd

[6] Straeon cymdeithasol a sgyrsiau stribedi comig

datblygu proffesiynol. Mae hyn yn cefnogi ethos *Tîm Caerffili*. Fodd bynnag, mae rhai ymarferwyr yn bryderus am fod cydweithwyr yn gadael ar ôl cael cynnig cyfraddau cyflog mwy cystadleuol ac effaith hyn ar y gwasanaeth. **Mae'r arweinwyr yn ymwybodol o'r heriau hyn a dylent barhau i weithio gydag aelodau'r cyngor a phartneriaid cenedlaethol i sicrhau gweithlu sefydlog.**

4.11 Mae swydd Prif Weithredwr yr awdurdod lleol yn wag ar hyn o bryd ac mae trefniadau dros dro ar gyfer Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol. **Mae'r awdurdod lleol yn hysbysebu'r swyddi hyn ac mae'n rhaid iddo sicrhau y gwneir penodiadau amserol er mwyn cryfhau gwydnwch y tîm arwain ymhellach.**

4.12 Mae'r rheolwyr a'r arweinwyr yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt o System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) i fonitro cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol. Fodd bynnag, roedd y dulliau o sicrhau ansawdd a rhannu arferion gorau yn amrywio rhwng timau. **Dylai'r arweinwyr gryfhau'r trefniadau i sicrhau y caiff safonau y cytunwyd arnynt eu cymhwyso'n gyson.**

4.13 Caiff y rhan fwyaf o sesiynau goruchwylio eu cwblhau o fewn terfynau amser y cytunwyd arnynt. Byddai canolbwyntio mwy ar ymarfer myfyriol a chamau gweithredu cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol (CAMPUS) yn helpu i gryfhau sesiynau goruchwylio ffurfiol. **Dylai'r arweinwyr weithio gyda'r rheolwyr i ddatblygu safonau cyson ar gyfer goruchwylio.**

4.14 Mae'r arweinwyr yn cymryd camau rhagweithiol i lywio'r farchnad gofal dydd a gofal seibiant[7].
Mae'r awdurdod lleol wedi symud tuag at ddarpariaeth economi gymysg, a chafwyd adborth amrywiol gan ymarferwyr am hyn. Mae gofalwyr anffurfiol hefyd wedi mynegi pryderon nad yw'r newidiadau yn diwallu eu hanghenion. Er enghraifft, dywedodd un gofalwr: *'since the closure of adult day centres, the quality of support for disabled people has been hugely compromised. As a carer and family member, I have been advised that a 1-to-1 service is more beneficial for individuals, however I strongly disagree and don't feel my brother has anywhere near the support he received at the day centre he attended'*. Mae ein canfyddiadau o'r arolygiad yn cyd-fynd ag argymhellion adolygiad annibynnol HICO ym mis Ionawr 2023[8]. Bydd yn cymryd amser i'r newid trawsnewidiol hwn ymsefydlu fel rhan o ymarfer. **Dylai'r awdurdod lleol barhau i weithio drwy argymhellion yr adroddiad hwnnw er mwyn rheoli newidiadau i wasanaethau a chydgynhyrchu gwasanaethau gyda'r bobl y mae'r newidiadau hyn yn effeithio fwyaf arnynt.**

**Atal**

[7] Cyfleoedd Dydd - Cabinet 260723.pdf
[8] https://democracy.caerphilly.gov.uk/documents/s45691/Appendix%202.pdf

**Cryfderau**

4.15 Mae Rhwydweithiau Llesiant Integredig yn hyrwyddo dulliau sy'n seiliedig ar leoedd o gydgynhyrchu gwasanaethau ataliol yng Ngogledd, Dwyrain a De Caerffili. Mae gan bob ardal gynlluniau a strategaethau penodol i ymdrin ag anghenion lleol a gwella'r gwasanaethau a ddarperir. Mae modelau gwasanaeth arloesol yn manteisio ar adnoddau cymunedol, gan wella'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu a'u gwydnwch. Un **enghraifft gadarnhaol** o hyn yw Hwb Cymunedol Rhymni, sy'n meithrin ysbryd cymunedol ac yn darparu mynediad hawdd at wasanaethau hanfodol. Drwy gyd-leoli gwasanaethau, mae'r hwb yn annog sefydliadau i gydweithio.

4.16 Mae tîm 'Gofalu am Gaerffili'[9] yn cynnig gwasanaeth brysbennu canolog a chydgysylltiedig i'r trigolion hynny yn y fwrdeistref sirol y mae angen cymorth arnynt ar gyfer materion megis tlodi bwyd, dyledion neu ôl-ddyledion rhent, teimlo'n ynysig neu'n unig.

4.17 Gall oedolion yng Nghaerffili gael gafael ar wasanaethau cymdeithasol drwy'r Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth. Mae'r gwasanaeth yn cydweithio'n gadarnhaol â chydweithwyr o'r Tîm Diogelu, y Gwasanaeth Asesu a Hwb Diogelu Gorllewin Gwent. Roedd pobl yn cael ymateb cymesur i'w ceisiadau am wybodaeth a chyngor, ac ymyriadau diogelu amserol.

4.18 Mae'r gwasanaeth asesu yn cwblhau asesiadau gweithredol i hyrwyddo ymateb amlddisgyblaethol i angen sy'n canolbwyntio ar atebion ac yn seiliedig ar gryfderau. Caiff y gwasanaeth asesu ei ddarparu gan y Tîm Adnoddau Cymunedol ac mae'n ceisio cadarnhau pa gymorth sydd ei angen ar unigolyn, os o gwbl, i barhau i fyw gartref mor annibynnol â phosibl ac i gyflawni ei ganlyniadau. Mae asesiad gweithredol yn lleihau'r angen am wasanaethau statudol ac yn sicrhau bod pobl yn cael cymorth amserol a phriodol. Mae cyfeirio unigolion at *Gofalu am Gaerffili* a'r gwasanaeth *Cysylltwyr Cymunedol* er mwyn cael gwybodaeth a chyngor yn gwneud mentrau cymorth cynnar hyd yn oed yn fwy effeithiol. Mae hyn yn enghraifft o **ymarfer cadarnhaol** ac mae'n sicrhau pwyslais sylweddol ar hyrwyddo annibyniaeth.

4.19 Mae'r arweinwyr wedi datblygu tîm iechyd meddwl a llesiant. Mae'r tîm hwn yn rhoi cymorth i bobl nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer gofal sylfaenol neu eilaidd. Mae'r **ymarfer cadarnhaol** hwn yn gwella canlyniadau i bobl ac yn atal anghenion rhag gwaethygu a'r angen i wasanaethau gofal eilaidd ymyrryd.

4.20 Y Tîm Gofalwyr sy'n cwblhau'r rhan fwyaf o asesiadau gofalwyr ar gyfer yr awdurdod lleol ac mae'n darparu cymorth ymarferol ac emosiynol i ofalwyr. Mae cylchlythyron a'r cyfryngau cymdeithasol yn cynnig llwyfannau effeithiol i

[9] Caerffili - Bwrdeistref Sirol Caerffili

rannu gwybodaeth ac mae gweithwyr cymorth gofalwyr yn eu cyfeirio at yr Hwb Gofalwyr a phrosiect Pontio'r Bwlch. Gwnaethom arsylwi ar y Tîm Gofalwyr yn darparu cymorth dilys, gofalgar a chynhwysfawr. Mae'r cymorth hwn i ofalwyr yn faes **ymarfer cadarnhaol** sy'n gwella cadernid cymunedol.

**Meysydd i'w Gwella**

4.21 Gall awdurdod lleol gyfuno asesiad o anghenion unigolyn ag anghenion ei ofalwr os bydd o'r farn y byddai hynny'n fuddiol. Fodd bynnag, effeithir ar ansawdd ac amseroldeb ymyriadau pan fydd gofalwyr yn cael asesiadau a chymorth gan yr un tîm â'r unigolyn sy'n derbyn gofal. Dywedodd gofalwyr nad yw eu hanghenion nhw ac anghenion yr unigolyn sy'n derbyn gofal yn cael eu hystyried yn gyfartal. Nododd un gofalwr: *"My loved one's voice is heard above mine… What's missing is that the weight of our consent is unequal. He is given choices, I am not".* Mae'r tîm gofalwyr yn darparu llwybr at gymorth a werthfawrogir yn fawr a bydd yn gweithio gyda gofalwyr i uwchgyfeirio a blaenoriaethu eu hanghenion. **Dylai'r arweinwyr barhau i ymchwilio i gyfleoedd i gryfhau llais gofalwyr a llwybrau at ofal a chymorth.** Mae'n arbennig o bwysig bod hyn yn digwydd pan fydd angen brys, neu os bydd gan y gofalwr anghenion a/neu ddymuniadau sy'n wahanol i rai'r unigolyn sy'n derbyn gofal.

4.22 Ym mis Hydref 2024, cwblhaodd yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ymchwiliad i'r ffordd y caiff asesiadau o anghenion gofalwyr eu gweinyddu yng Nghymru. Roedd Caerffili yn un o'r pedwar awdurdod lleol a oedd yn rhan o'r ymchwiliad hwn ac mae'r pedwar awdurdod lleol wedi derbyn y canfyddiadau[10]. **Mae AGC yn cefnogi canfyddiadau'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ac mae'n rhaid i'r awdurdod lleol barhau i weithio tuag at gyflawni argymhellion yr adroddiad hwn.**

4.23 Mae sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau darparwyr yn her genedlaethol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i arweinwyr reoli adnoddau'r farchnad yn ofalus. Mae paneli yn sicrhau ansawdd cynlluniau gofal a'r defnydd o adnoddau yn ofalus. Mae'r arweinwyr yn disgrifio pwysigrwydd canolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn sicrhau ymateb digonol i bobl sydd ag angen blaenoriaethol. Nid yw llawer o ymarferwyr yn deall y naratif hwn. Mae rhai ymarferwyr yn cyfeirio pobl at adnoddau y tybir eu bod ar gael, ond mae'n bosibl na fydd yr adnodd y gofynnir amdano bob amser yn diwallu'r anghenion a nodwyd ar gyfer yr unigolyn. Gall yr ymarfer hwn gamystumio data ar anghenion nas diwallwyd, gan ei gwneud yn anos nodi bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir a mynd i'r afael â nhw. **Dylai'r arweinwyr wella prosesau cyfathrebu ynghylch diben paneli a datblygu systemau cadarn ar gyfer nodi anghenion nas diwallwyd.**

[10] A ydym yn gofalu am ein gofalwyr? - Ymchwiliad Ar Ei Liwt ei Hun i weinyddiad asesiadau o anghenion gofalwyr yng Nghymru

**Llesiant**

**Cryfderau**

4.24 Mae'r awdurdod lleol yn ymateb i atgyfeiriadau diogelu mewn ffordd amserol a chymesur. Mae'r timau gwybodaeth, cyngor a chymorth a diogelu yn diweddaru atgyfeirwyr ynghylch canlyniad eu hatgyfeiriadau fel mater o drefn ac yn hyrwyddo presenoldeb amlasiantaethol mewn fforymau diogelu yn gyson. Mae hyn yn enghraifft o **ymarfer cadarnhaol** a dylai barhau.

4.25 Mae ymarferwyr yn rhagweithiol ac yn llawn cymhelliant i reoli risgiau a gwella diogelwch a llesiant pobl. Yn yr enghreifftiau gorau, mae ymarferwyr yn mynd ati'n gyson ac yn ddyfal i gadw mewn cysylltiad â phobl a rhannu risgiau ag asiantaethau partner. Mewn achosion cymhleth, gwelsom **enghreifftiau cadarnhaol** o asesiadau risg a dulliau rheoli risg amlasiantaethol.

4.26 Ar adeg cynnal yr arolygiad, roedd 278 o bobl yn aros am asesiad yn yr awdurdod lleol. O blith y rhai a oedd yn aros, mae angen asesiad gan Therapyddion Galwedigaethol Cymunedol ar y mwyafrif. Mae Therapyddion Galwedigaethol Cymunedol yn rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl sy'n aros ac yn blaenoriaethu atgyfeiriadau yn seiliedig ar angen. Mae'r arweinwyr yn ymwybodol o asesiadau sy'n aros i gael eu cynnal ac yn sicrhau y caiff anghenion eu blaenoriaethu mewn ffordd gymesur.

4.27 Mae'r gwasanaeth asesu yn sicrhau bod pob atgyfeiriad yn cael asesiad gweithredol mewn modd amserol. Mae'r asesiadau gweithredol yn unol ag ysbryd Deddf 2014 ac yn sicrhau bod y sgiliau, y gallu, y cymorth a'r deunyddiau sydd ar gael i'r unigolyn ei hun, ei deulu a'i gymuned, yn cael eu defnyddio i ddiwallu ei anghenion a hybu ei lesiant.

4.28 Mae'r awdurdod lleol wedi sicrhau cyllid cyfalaf ar gyfer dau gartref seibiant newydd a llety byw â chymorth i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt. Bydd hyn yn gwella trefniadau seibiant wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio i bobl a gofalwyr anffurfiol yng Nghaerffili.

**Meysydd i'w Gwella**

4.29 Mae ymarferwyr yn nodi pobl y mae angen asesiad o alluedd meddyliol arnynt mewn modd amserol. Mae asesiadau o alluedd meddyliol ac asesiadau ar gyfer Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn gynhwysfawr ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn, gan roi pwyslais ystyrlon ar hawliau a lles pennaf. Fodd bynnag, mae oedi wrth gwblhau asesiadau ar gyfer Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Mae'r arweinwyr yn targedu hyfforddiant er mwyn datblygu mwy o aseswyr Lles Pennaf. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

hefyd yn adolygu'r Consortiwm Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid[11] ac yn cynnal cynlluniau peilot er mwyn gwneud arbedion. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau peilot ar gyfer anfon atgyfeiriadau ar gyfer Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn syth i awdurdodau lleol er mwyn gwella trefniadau gweinyddu, dilysu a sicrhau ansawdd. **Mae'n rhaid i'r arweinwyr sicrhau y caiff asesiadau ac adolygiadau ar gyfer Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid eu cwblhau'n amserol.**

4.30 Byddai canolbwyntio mwy ar y diffiniad o oedolyn sy'n wynebu risg o dan adran 126 o Ddeddf 2014[12] yn helpu i gryfhau'r trefniadau diogelu.  Un agwedd bwysig yw nad yw'r unigolyn yn gallu “amddiffyn ei hun rhag camdriniaeth neu esgeulustod” ac nid o reidrwydd p'un a oes ganddo'r gallu (i amddiffyn ei hun) ai peidio. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd pryderon ynghylch ffactorau eraill megis gorfodaeth, rheolaeth a chamfanteisio. Byddai defnyddio iaith Deddf 2014 a Gweithdrefnau Diogelu Cymru o fudd wrth bennu'r rhesymeg dros benderfyniadau diogelu. **Dylai'r arweinwyr weithio gydag ymarferwyr a phartneriaid i ddatblygu gwell dealltwriaeth o *oedolyn sy'n wynebu risg.***

4.31 Mae llawer o ymarferwyr yn cydgynhyrchu asesiadau gyda phobl sy'n canolbwyntio ar ‘yr hyn sy'n bwysig’ i'r unigolyn a sut y gall ddefnyddio ei gryfderau a'i adnoddau ei hun i gyflawni canlyniadau personol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae ymarferwyr yn defnyddio'r pum elfen asesu allweddol, yn unol â Rhan 3 o Ddeddf 2014. **Dylid cryfhau asesiadau ymhellach drwy ddadansoddi'r cysylltiad rhwng ‘yr hyn sy'n bwysig’ a'r dewisiadau sydd ar gael i bobl i ddiwallu eu hanghenion, a rhoi mwy o bwyslais ar y cysylltiad hwn.**

4.32 Mae pobl yn wynebu oedi mewn perthynas ag asesiadau ariannol. Mae hyn yn effeithio ar eu gallu i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth mewn ffordd amserol a chael y cymorth cywir ar yr amser cywir. Os bydd pobl yn derbyn gofal ac nad ydynt yn gymwys i gael cymorth ariannol, gall hyn effeithio ar eu llesiant ariannol ac emosiynol. Mae'r arweinwyr yn ymwybodol o'r mater hwn ac maent yn ymchwilio i gyfleoedd i gynyddu capasiti er mwyn ateb y galw hwn. **Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno fframwaith cyson a symlach ar gyfer asesiadau ariannol.**

4.33 Gall pobl wynebu oedi mewn perthynas ag asesiadau i'w rhyddhau o'r ysbyty. Nododd yr arweinwyr y bydd gan y Tîm Adnoddau Cymunedol fwy o adnoddau yn fuan i ymgymryd â'r holl asesiadau rhyddhau hyn ar gyfer yr awdurdod lleol. **Dylai'r arweinwyr barhau i adolygu'r gwasanaeth asesu newydd a hyrwyddo effeithlonrwydd er mwyn sicrhau y caiff cleifion eu rhyddhau mewn modd amserol.**

---

[11] Y Tîm Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid - Diogelu Gwent
[12] Diogelu Cymru

4.34 Mae gan y rhan fwyaf o bobl gynlluniau gofal a chymorth sy'n cyflawni eu canlyniadau mewn ffordd gymesur. **Dylid cryfhau cynlluniau gofal a chymorth ymhellach drwy roi mwy o bwyslais ar y cysylltiad rhwng canlyniadau wedi'u cydgynhyrchu a'r camau gweithredu neu'r gwasanaethau a ddarperir.**

4.35 Nid oes cynlluniau gofal a chymorth a/neu gynlluniau amddiffyn gofal a chymorth yn cael eu cwblhau mewn modd amserol ar gyfer ychydig o bobl. Fel arfer bydd hyn yn digwydd pan gaiff canlyniadau a chamau gweithredu eu cofnodi yn yr asesiad neu yng nghofnodion cyfarfod. **Pan fydd yn ofynnol i awdurdod lleol ddiwallu anghenion unigolyn, rhaid iddo baratoi a chynnal cynllun gofal a chymorth mewn perthynas â'r unigolyn hwnnw.** Byddai rhoi mwy o bwyslais ar y cysylltiadau rhwng risg, cryfderau a diogelwch yn cryfhau cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth ymhellach.

4.36 Mae sicrhau bod digon o ddarparwyr gofal i ddiwallu anghenion y boblogaeth yn her hanfodol. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol weithio'n agos gyda darparwyr gofal, grwpiau defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill i gynnal sefydlogrwydd y farchnad a sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn ddigonol. Fel llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru, nid oes digon o leoliadau ar gyfer pobl y mae angen gofal nyrsio arnynt yng Nghaerffili. **Dylai'r arweinwyr barhau i weithio gyda darparwyr a phartneriaid i ddatblygu digonolrwydd yn y maes hwn.**

**Partneriaethau ac Integreiddio**

**<u>Cryfderau</u>**

4.37 Mae'r arweinwyr yn datblygu gwasanaethau a dulliau gweithredu i wella trefniadau cydweithio mewnol. Mae'r tîm asesu newydd a'r hyfforddiant ar sgyrsiau cydweithredol yn **enghreifftiau cadarnhaol** o'r dull gweithredu hwn. Dywedodd ymarferwyr wrthym: ‘*leaders are not scared of changing things to work better and this is resulting in a sleeker service for people, as they don’t need to tell their stories more than once’.*

4.38 Gwelsom bartneriaethau cadarnhaol rhwng y gwasanaethau oedolion a'r gwasanaethau plant wrth asesu achosion lle mae rhieni yn camddefnyddio sylweddau. Mae hyn yn cynnwys gwerthusiadau manwl o'u hiechyd, eu hanghenion cymdeithasol a dynameg y teulu; ac effaith y rhain ar ddiogelwch a llesiant plant. Caiff ymyriadau therapiwtig cydgysylltiedig (megis Therapi Gwybyddol Ymddygiadol a Chyfweld Cymhellol) a chymorth ymarferol eu darparu i'w helpu i wella.

4.39 Mae'r arweinwyr wedi datblygu partneriaethau cryf drwy drefniadau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae Cynllun Ardal cynhwysfawr ar gyfer 2023-2028 sy'n canolbwyntio ar integreiddio gwasanaethau ar draws iechyd a gofal

cymdeithasol a'u hannog i gydweithio. Mae cyllid o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol wedi cael ei ddefnyddio i ddatblygu technoleg gynorthwyol a datrysiadau digidol; mae rhaglen Gwent sy'n Deall Dementia yn galluogi dros 270 o bartneriaid i gefnogi ymwybyddiaeth o ddementia a chynhwysiant; ac mae Caerffili yn gweithredu cynllun Cysylltu Bywydau ar ran chwe awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

4.40 Mae cyllid gan y Gronfa Gofal Integredig a chyllid trawsnewid yn cefnogi'r agenda llesiant i bobl yn y rhanbarth. Mae rheoli a defnyddio'r cyllid hwn yn effeithiol yn dasg barhaus. Cefnogodd menter "Ymhellach, Yn Gyflymach" gamau i ehangu'r Tîm Adnoddau Cymunedol mewn pum bwrdeistref[13]. Mae'r Grŵp Arwain Rhanbarthol wedi gweithio ar fentrau i atal pobl rhag gorfod cael eu derbyn i'r ysbyty, gan gynnwys: gwasanaeth 'The Man with a Van' sy'n ymateb i achosion lle bydd pobl wedi baglu a chwympo (yn lle Gwasanaethau Ambiwlans Cymru) a pharafeddygon yn ymateb i argyfyngau iechyd meddwl.

4.41 Mae Caerffili yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ledled Gwent er mwyn cyfuno cyllidebau. Mae hyn yn cynnwys trefniadau gweithlu ar y cyd â Thîm Dyletswydd Argyfwng Blaenau Gwent a De-ddwyrain Cymru.

4.42 Mae cyllid teirochrog gan y gwasanaethau cymdeithasol, addysg ac iechyd wedi helpu i recriwtio arweinydd rhanbarthol ar gyfer awtistiaeth. Mae'r swydd hon yn cefnogi camau i roi'r Cod Ymarfer ar gyfer Awtistiaeth[14] ar waith.

4.43 Caerffili sy'n cynnal y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a dywed y partneriaid bod trefniadau cadarn ar gyfer y bwrdd hwn. Mae Hwb Diogelu Gorllewin Gwent yn sicrhau bod yr Heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol wedi'u cyd-leoli, sy'n hwyluso ymatebion amserol i faterion diogelu.

4.44 Mae'r farchnad ar gyfer gwasanaethau darparwyr yn ddynamig ac yn heriol. Mae'r awdurdod lleol yn canolbwyntio ar weithio tuag at y dulliau gweithredu yn y cod ymarfer (newydd) ar gyfer comisiynu[15]. Mae gan yr arweinwyr a'r tîm comisiynu gydberthnasau da â darparwyr ac maent yn cefnogi camau i wella ansawdd ac amseroldeb gwasanaethau yng Nghaerffili. Mae hyn wedi cyfrannu at leihau amseroedd aros am ofal cartref yn sylweddol ac mae pobl yn cael ymateb amserol i anghenion a aseswyd. Mae hyn yn enghraifft o **ymarfer cadarnhaol** a dylai'r arweinwyr barhau â'r dull gweithredu hwn er mwyn cynnal gwelliannau.

## Meysydd i'w Gwella

4.45 Nododd ymarferwyr a phartneriaid fod angen gwneud rhai gwelliannau gweithredol mewn perthynas â threfniadau diogelu. Mae hyn yn cynnwys

[13] Datganiad Ysgrifenedig: Meithrin Gallu drwy Ofal Cymunedol – Ymhellach, Yn Gyflymach (6 Mehefin 2023) | LLYW.CYMRU
[14] Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth | LLYW.CYMRU
[15] Fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth: cod ymarfer | LLYW.CYMRU

darparwyr yn rhannu gwybodaeth mewn modd amserol, oedi mewn perthynas ag ymchwiliadau'r heddlu, a phresenoldeb cyson cydweithwyr iechyd mewn cyfarfodydd strategaeth. Nododd yr awdurdod lleol hefyd fod angen herio cydweithwyr iechyd yn rheolaidd mewn perthynas â threfniadau Gofal Iechyd Parhaus. **Dylai'r arweinwyr barhau i wrando ar adborth ymarferwyr a chodi'r materion hyn ar lefel strategol gyda phartneriaid.**

4.46 Caiff llawer o adolygiadau o gynlluniau gofal eu cwblhau mewn modd amserol. Adolygiad ôl-ofal o dan adran 117 sydd ei angen ar y mwyafrif o'r rhai sy'n aros i gael eu cwblhau. Gall oedi ddigwydd pan gaiff y rhain eu dyrannu i gydweithwyr iechyd a/neu os nad yw'r person neu randdeiliaid yn gallu mynychu adolygiadau mewn modd amserol. **Dylai'r awdurdod lleol barhau i weithio gyda phobl a phartneriaid ym maes iechyd er mwyn hyrwyddo adolygiadau amserol.**

## 5. Y Camau Nesaf

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r ymarfer cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol eraill, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

## 6. Methodoleg

### Gwaith maes

- Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth ar gyfer yr arolygiad drwy ystyried profiadau 31 o bobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom adolygu 27 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain pedwar.
- Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a lle y bo'n briodol, weithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.
- Gwnaethom ymgysylltu drwy gyfweliadau â 31 o bobl sy'n cael gwasanaethau a/neu eu gofalwr.
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau, â 27 o gyflogeion yr awdurdod lleol (gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr tîm, rheolwyr gweithredol ac arweinwyr)
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau, â 25 o ymarferwyr ac arweinwyr o sefydliadau partner.
- Clywsom gan 147 o aelodau o staff, 31 o bobl a 24 o bartneriaid drwy ein harolygon arolygu.
- Gwnaethom edrych ar y dogfennau ategol a anfonwyd i AGC at ddiben yr arolygiad.

- Gwnaethom ddosbarthu arolygon i staff gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, sefydliadau partner a phobl.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn [https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol](https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol).

**7. Y Gymraeg**

Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ei gweithgarwch ag awdurdodau lleol.

Nid oedd angen y cynnig rhagweithiol ar yr achlysur hwn.  Cawsom wybod gan yr awdurdod lleol nad oedd y bobl a oedd yn cymryd rhan am gyfrannu at y gwiriad sicrwydd hwn yn Gymraeg.

**8. Cydnabyddiaethau**

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**

**Atodiad 1**

**Rhestr Terminoleg**

| Term | Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau |
|---|---|
| **Rhaid** | Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo gymryd camau. |
| **Dylai** | Bydd gwelliant yn cynnig gwasanaeth gwell a/neu ganlyniadau gwell i'r bobl a/neu eu gofalwr. Nid yw'n cyfateb i fethiant i gyflawni dyletswydd statudol ar hyn o bryd; ond heb gymryd camau addas, mae risg na fydd yr awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol. |
| **Ymarfer cadarnhaol** | Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'n ymwneud ag ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol. |
| **Atal ac Ymyrryd yn Gynnar** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu. |
| **Llais a Rheolaeth** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant a chyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt. |
| **Llesiant** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth. |
| **Cydgynhyrchu** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn |

| | |
|---|---|
| | gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau. |
| **Gwaith amlasiantaethol** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at atgyfnerthu'r trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn gwneud yn siŵr bod y mathau priodol o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodeb y Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithio a gweithio mewn partneriaeth. |
| **Yr hyn sy'n bwysig** | Mae sgyrsiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt eu clywed. |

**Atodiad 2**

**Tabl Diffiniadau o Niferoedd**

| **Terminoleg** | **Diffiniad** |
|---|---|
| Bron pob un | Heb fawr ddim eithriadau |
| Rhan fwyaf | 99% neu fwy |
| Llawer | 70% neu fwy |
| Mwyafrif | Dros 60% |
| Hanner | 50% |
| Tua hanner | Yn agos at 50% |
| Lleiafrif | Llai na 40% |
| Ychydig | Llai nag 20% |
| Ychydig iawn | Llai na 10% |